Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 13.05.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Fframwaith drafft ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Rydym yn croesawu'r ffaith bod hon yn ddogfen gryno a hygyrch. Teimlwn bod y wybodaeth a ddarperir yn y fframwaith o fudd fel dogfen lefel uwch gan arbenigwyr Cymraeg o fewn rhanbarthau neu Awdurdodau Addysg Lleol ac ymarferwyr profiadol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'n cynnwys manylion digon penodol am iaith a phatrymau y byddai ymarferwyr eu hangen ar gyfer cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.<br><br>Teimlwn bod cyfle i gyfeirio at ddogfennau a blaenoriaethau diweddar yn y ddogfen, er enghraifft y cyd destun cyffredinol o ran strategaeth Cymru 2050, categoreiddio ysgolion (gan gynnwys y disgwyliad ar ysgolion cyfrwng Saesneg i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am 15% o amser cwricwlaidd).<br><br>Credwn y bydd angen cymorth ar y gweithlu i ddehongli cynnwys y fframwaith er mwyn nodi a chynllunio gweithgareddau addas ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Un o'r argymhellion o'n hadroddiad thematig diweddar '[Addysg Drochi – strategaethau a dulliau ar gyfer disgyblion 3-11 oed'] yw bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu fforwm genedlaethol i hyrwyddo dulliau trochi Cymraeg, gan gynnwys hybiau lleol i gefnogi ymarferwyr i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol gyda dilyniant addas. Er bod gwahaniaeth rhwng trochi Cymraeg a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r egwyddorion hyn sy'n ymwneud â geirfa, patrymau cystrawen a'r dulliau yn parhau'n berthnasol. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

(i) Ydych chi'n darparu addysg neu'n cefnogi darpariaeth addysg?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

(ii) Os ydych, i ba fath o sefydliad? (Os na ewch at iv isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd) | ☐ | Sefydliad addysg uwch | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd) | ☐ | Awdurdod esgobaethol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd) | ☐ | Consortia rhanbarthol | ☐ |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Ysgol ddwyieithog (Cynradd) | ☐ | Darparwr hyfforddiant preifat | ☐ |
| Ysgol ddwyieithog (Uwchradd) | ☐ | Trydydd sector | ☐ |
| Ysgol arbennig | ☐ | Llywodraeth | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg | ☐ | Dysgu cymunedol i oedolion | ☐ |
| Ysgol pob oed cyfrwng Saesneg | ☐ | Sefydliad dyfarnu | ✓ |
| Uned cyfeirio disgyblion (PRU) | ☐ | Undeb addysg | ☐ |
| Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) wedi'i gomisiynu gan awdurdod lleol | ☐ | Corff rheoleiddio (yn cynnwys arolygiaeth) | ☐ |
| Coleg addysg bellach | ☐ | Llywodraethwr | ☐ |
| Lleoliad nas cynhelir a ariennir | ☐ | Arall (nodwch os gwelwch yn dda): | ☐ |
| Aelod pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion | ☐ | | |

(iii) Beth yw eich prif swyddogaeth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | ☐ | Canghellor/dirprwy canghellor | ☐ |
| Athro | ☐ | Darlithydd | ☐ |
| Ymarferwr addysg arall | ☐ | Llywodraethwr | ☐ |
| Athro newydd gymhwyso | ☐ | Cynghorydd herio | ☐ |
| Cynorthwyydd addysgu | ☐ | Swyddog gwella ysgolion | ☐ |
| Uwch arweinydd | ☐ | Arolygydd | ✓ |
| Athro cyflenwi | ☐ | Arall (nodwch os gwelwch yn dda): | ☐ |
| Athro mewn gofal | ☐ | | |
| Pennaeth/dirprwy bennaeth addysg bellach | ☐ | | |

(iv) Os nad ydych yn gweithio yn darparu addysg neu'n cefnogi darpariaeth addysg, ym mha rôl ydych yn cynnig adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Cyflogwr | ☐ |
| Oedolyn 18+ (ddim yn rhiant/gofalwr) | ☐ | Prentis | ☐ |
| Plentyn neu berson ifanc (dan 18) | ☐ | Arall (nodwch os gwelwch yn dda): | ☐ |
| Myfyriwr | ☐ | | |

(v) Ydych chi’n cynnig adborth ar ran sefydliad neu grwp?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |
|---|---|---|---|

(vi) Os ‘ydych' nodwch p’run os gwelwch yn dda

| |
|---|
| Estyn |

**Cwestiwn 1** – A yw'r wybodaeth a ddarperir yn y fframwaith hwn am brofiadau, gwybodaeth a sgiliau yn cynnig arweiniad i athrawon i helpu cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

| Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda.

Rydyn ni’n teimlo bod y wybodaeth a ddarperir yn y fframwaith o fudd fel dogfen lefel uwch gan arbenigwyr Cymraeg o fewn rhanbarthau neu awdurdodau lleol ac ymarferwyr profiadol.

Ar y cyfan, nid yw’n cynnwys manylion digon penodol am iaith a phatrymau y byddai ymarferwyr eu hangen ar gyfer cynllunio’r camau nesaf mewn dysgu. Mae'r camau a gynhwysir ynddo yn gyffredinol. I'r rhai hynny nad ydynt yn hyderus yn addysgu Cymraeg, nid yw'r manylder yn ddigon i'w cynorthwyo. Yn ein hadroddiad thematig diweddar ‘Caffael yr iaith Gymraeg’, fe wnaethom nodi ‘mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw cynllunio ar gyfer dysgu wedi’i ddatblygu’n ddigonol. Er enghraifft, mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, ni chaiff hyn ei lywio’n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil.’ O ganlyniad felly, heb strwythur a manylion digon penodol, mae meysydd datblygu fel yr uchod yn mynd i barhau.

**Cwestiwn 2** – A oes unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys yn y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Nodwch yma ble rydych chi'n meddwl mae bylchau a beth y dylid ei ychwanegu.**

Er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod lawn o fedrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, byddai o fudd cynnig awgrymiadau o gyd-destunau a gweithgareddau ystyrlon a diddorol allai hwyluso’r uchod. Er enghraifft, er mwyn atgyfnerthu’r ‘dysgu ar gyfer darllen’, byddai cynnwys enghreifftiau o arferion da o ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen y gallai athrawon, yn enwedig y rhai llai hyderus, eu defnyddio ynghyd â rhestr o destunau darllen amrywiol.

| |
|---|
| Credwn ei fod yn bwysig i gynnig cefnogaeth i athrawon o bob cefndir ieithyddol i deimlo’n hyderus wrth gyflwyno a dysgu’r iaith mewn lleoliadau Saesneg. |

**Cwestiwn 3 –** A fydd yr wybodaeth am gymwyseddau iaith a ddarperir yn y fframwaith hwn yn cefnogi athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

| Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| Mae rhai athrawon, yn enwedig y darparwyr hynny nad ydynt mor hyderus wrth addysgu’r Gymraeg, yn debygol o weld y lefel hwn o wybodaeth yn rhy uchelgeisiol ac anelwig at ddibenion cynllunio. Mae’r wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i'r rhai sydd am gyflwyno cynlluniau lleol neu ranbarthol ac i’r ymarferwyr profiadol hynny. Bydd nifer helaeth o athrawon Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn dibynnu ar arweiniad oddi wrth eu rhanbarthau o ran dibenion cynllunio a chyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol newydd yn gelfydd mewn gweithgareddau cyfoethog sydd wedi’u cynllunio’n dda.<br><br>Mae ein hadroddiad thematig ‘Caffael yr iaith Gymraeg’ yn nodi nad ‘yw medrau cyfathrebu ychydig o ymarferwyr yn ddigon cadarn i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg yn gywir’. O ganlyniad, felly, credwn ei fod yn bwysig i gynnig mwy o ganllawiau a chymorth i athrawon wrth gynllunio. Mae ein hadroddiad thematig ‘Addysg Drochi – strategaethau a dulliau ar gyfer disgyblion 3-11 oed’ yn cynnwys nifer o egwyddorion sy’n rhoi canllaw a chymorth i athrawon wrth gynllunio. Er bod gwahaniaeth rhwng trochi Cymraeg a dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae’r egwyddorion hyn yn parhau’n berthnasol ac o fudd wrth gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg. |

**Cwestiwn 4 –** Mae'r fframwaith drafft yn nodi'r disgrifiadau dysgu fesul llinyn. Ydych chi'n meddwl y byddai cynnwys brawddeg ychwanegol uwchben y disgrifiadau dysgu i grynhoi ffocws pob llinyn cynnydd yn ddefnyddiol i athrawon? (Ceir enghraifft o'r fframwaith isod, gyda'r frawddeg ychwanegol a awgrymir: 'Mae'r llinyn hwn yn disgrifio cynnydd mewn datblygu geirfa'.)

| | **Mae'r llinyn hwn yn disgrifio cynnydd mewn datblygu geirfa** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 2** | **Cam cynnydd 3** | **Cam cynnydd 4** | **Cam cynnydd 5** |
| **Disgrifiadau dysgu ar gyfer ysgrifennu** | Rwy’n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy’n gallu defnyddio geirfa sy’n gynyddol ddychmygus ac amrywiol. | Rwy’n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu. | Rwy’n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant. | Rwy’n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau. |

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| Mae’r fformat yn gryno, yn glir ac yn ddefnyddiol ac mae cynnwys y frawddeg syml uwchben yn dangos yn glir beth yw’r ffocws dan sylw.<br><br>Fodd bynnag, mae’n debygol y bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar ymarferwyr gan bartneriaid cymorth er mwyn deall sut mae’r camau’n berthnasol i’w harferion o fewn yr ystafell ddosbarth. |

**Cwestiwn 5** – Pa ddeunyddiau ategol ychwanegol ydych chi'n meddwl y bydd eu hangen ar athrawon er mwyn defnyddio’r Cwricwlwm i Gymru a'r fframwaith hwn yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

| |
|---|
| Er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod lawn o fedrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, byddai o fudd cynnig awgrymiadau o gyd-destunau a gweithgareddau ystyrlon a diddorol allai hwyluso’r uchod. Byddai cynnig enghreifftiau neu astudiaethau achos o arferion da o gynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddwysau a chefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol o fudd hefyd.<br><br>Mae ein hadroddiad thematig ‘Addysg Drochi – strategaethau a dulliau ar gyfer disgyblion 3-11 oed’ yn cynnwys nifer o egwyddorion sy’n ymwneud â geirfa, patrymau cystrawen a’r dulliau. Er bod gwahaniaeth rhwng trochi Cymraeg a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae’r egwyddorion hyn yn parhau’n berthnasol. Cyfeiria’r adroddiad at enghreffitiau penodol o ddarpariaeth fyddai’n fuddiol i athrawon eu defnyddio i gefnogi cynnydd dysgwyr. Er enghraifft, mae’n nodi dulliau megis gweithgareddau gwrando gwerthfawr, bwydo iaith bwriadus, adnoddau gweledol a defnydd o ardaloedd gwahanol. |

**Cwestiwn 6** – Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ydych chi'n meddwl y bydd eu hangen ar athrawon er mwyn defnyddio’r Cwricwlwm i Gymru a'r fframwaith hwn yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

| |
|---|
| Mae datblygiad proffesiynol yn elfen hollbwysig yn yr achos yma. Lle mae ymarferwyr mewn ysgolion yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd, maent yn fwy hyderus wrth ddysgu Cymraeg.<br><br>Mae’n debygol y bydd angen buddsoddi yn sgiliau iaith Gymraeg yr ymarferwyr eu hunain. Efallai y byddai’n werth ystyried sut rydym yn mesur effaith hyfforddiant o’r fath ar arferion yr ystafell ddosbarth.<br><br>Mae ein hadroddiad thematig ‘Datblygu’r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen’ yn nodi’r ‘amrywiaeth eang yn y faint o hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr mewn gwahanol awdurdodau. Yn yr achosion gorau, mae ymarferwyr yn cael hyfforddiant a chymorth diweddaru rheolaidd’. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn nodi yr ‘anawsterau wrth ryddhau staff i fynychu hyfforddiant’. Yn ategol at hyn, mae ein hadroddiad diweddaraf ‘Y Cwricwlwm i Gymru – sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?’ yn nodi ‘at ei gilydd, mae’r cymorth sy’n cael ei roi gan awdurdodau a chonsortia lleol i wella ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol ac |

mae'r cymorth ar gyfer dulliau addysgu sy'n benodol i bwnc a sector wedi gostwng dros gyfnod'. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn nodi bod angen 'gwella'r cymorth ar draws pob disgyblaeth bwnc'. Lle mae cefnogaeth bynciol ar ei gryfa, mae'r adroddiad yn nodi bod ysgolion rhanbarth Partneriaeth 'wedi elwa ar y cymorth ar gyfer y Gymraeg' ac 'mae dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol wedi eu helpu i ddeall sut i gynorthwyo athrawon yn eu hadrannau i ddatblygu eu dulliau o ran y cwricwlwm ac addysgu, ac ystyried y ffyrdd gorau i helpu eu disgyblion i wneud cynnydd mewn dysgu'.

Credwn yn gryf y bydd angen cymorth ar athrawon i ddehongli'r camau cynnydd ar gyfer eu disgyblion, a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, efallai y bydd angen cymorth arnynt i nodi geirfa a phatrymau brawddegau addas sy'n darparu dilyniant priodol, ynghyd â dulliau, tasgau a gweithgareddau i gefnogi'r rhain.

Yn ein tyb ni, byddai cydweithio rhwng y Sector Cymraeg i Oedolion a Chymraeg mewn Lleoliadau Cyfrwng Saesneg yn fforwm gwerthfawr iawn i rannu arfer da, methodoleg a dulliau gweithredu cyffredin.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r fframwaith arfaethedig ar gyfer Cymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau**

Mae'r fframwaith yn sicr yn codi brig y Gymraeg fel iaith gyfartal ac nid llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r cynnig newydd hwn yn cefnogi agenda Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Bydd yn bwysig cynnal y ffocws presennol ar sgiliau siarad a gwrando mewn unrhyw fanyleb newydd er mwyn bodloni nodau strategaeth 2050. Mae o fudd hefyd i alluogi ymarferwyr gynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a pharhad i ddysgwyr gaffael medrau Cymraeg.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y fframwaith arfaethedig ar gyfer ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau**

Yn ein tyb ni, gall y fframwaith ddylanwadu ar arweinyddiaeth y lleoliadau yma er mwyn iddynt sefydlu gweledigaeth glir a dull strategol o ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg dysgwyr mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae'r fframwaith yn ffordd o godi disgwyliadau arweinwyr o'r iaith Gymraeg a'u gorfodi i gynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddwysau a chefnogi dysgwyr o bob

cefndir ieithyddol i ymfalchïo yn y Gymraeg a'i defnyddio'n naturiol ac yn ddigymell fel rhan o'u haddysg a'u bywydau bob dydd.

Fodd bynnag, bydd angen i arweinwyr lleoliadau fuddsoddi ym medrau ac arbenigedd ymarferwyr drwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Teimlwn bod y cyflwyniad yn colli cyfleoedd i gyfeirio at ddogfennau a blaenoriaethau diweddar eraill, megis y cyd-destun cyffredinol o ran Cymraeg 2050, categoreiddio ysgolion (gan gynnwys y disgwyliad ar ysgolion cyfrwng Saesneg i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am 15% o amser cwricwlaidd).

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐